

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People & Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA P JJ 1967 18

5 Mehefin 2018

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mai yn gofyn am yr wybodaeth yr oeddem wedi cytuno i'w darparu, ynghyd a thystiolaeth ychwanegol ar gyfer y meysydd nad oedd y Pwyllgor wedi cael cyfle i ymdrin â hwy.

Dadansoddiad cychwynnol o gynlluniau peilot y cynnig gofal plant-

Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol a fydd yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cynnig gofal plant a'r broses o'i roi ar waith gan y saith awdurdod lleol. Bydd adroddiad y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018.

Rydym yn monitro'r Cynnig yn fanwl ac yn derbyn data wythnosol, misol a thymhorol gan yr awdurdodau lleol sy'n ei roi ar waith yn gynnar. Mae'r data monitro yn dangos:

- Bod mwy na 4,000 o geisiadau wedi'u derbyn;
- Bod mwy na 400 o ddarparwyr yn cymryd rhan;
- Bod bron 40% o'r plant sy'n cymryd rhan yn Cynnig yn defnyddio gofal plant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Bod 81% o'r rhieni sy'n gwneud cais am y Cynnig yn ei gweld gofal plant yn anodd ei fforddio;
- Bod o leiaf 60% o'r rhieni sy'n manteisio ar y cynnig yn ennill llai na'r cyflog canolrifol cyfartalog ar gyfer Cymru (£26,000), ac nad oes mwy na 5% yn ennill dros £52,000.

Rydym hefyd wedi cael adborth gan rieni, darparwyr ac awdurdodau lleol sy'n dangos ein bod ar y trywydd cywir wrth roi'r cynnig ar waith. Yn benodol:

- Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r dewis yr ydym wedi'i roi iddynt o ran defnyddio gwasanaeth gofal plant sy'n agos i'w cartref neu i'w gwaith, a'r cyfle i frodyr a chwiorydd fynd i'r un lle;
- Mae'r darparwyr wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol yn glŷn â'r gyfradd o £4.50, a bu croeso hefyd i'r hyblygrwydd i godi am fwyd a chludiant yn unol â'u model busnes a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae'r awdurdodau lleol sydd wedi rhoi'r cynllun ar waith yn gynnar yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y ddarpariaeth drawsffiniol.

Data ar Stem

Yn anffodus, er bod gennym set ddata hydredol sy'n olrhain trywydd pobl ar ôl iddynt adael y brifysgol, nid yw'n cynnwys y manylion a fyddai'n ofynnol er mwyn gallu dangos a yw rhywun wedi cymryd absenoldeb mamolaeth a dychwelyd i'r gwaith. Felly, nid oes modd inni ddarparu'r dadansoddiad manwl y gofynnwyd amdano.

Eglurder ynghylch a oes modd i rieni hawlio'r cynnig os yw aelod o'r teulu yn darparu gofal fel darparwr cofrestredig neu o fewn lleoliad darparwr cofrestredig

Ar hyn o bryd, nid oes modd i ofalwyr plant cofrestredig sy'n gofalu am blentyn sydd hefyd yn berthynas iddynt gael arian drwy'r cynnig gofal plant ar gyfer y plentyn hwnnw. Os yw'r plentyn yn mynychu unrhyw fath arall o ddarpariaeth gofal plant, megis meithrinfa breifat neu gylch chwarae, yna gall y lleoliad hwnnw gael arian i ddarparu gofal i'r plentyn hwnnw drwy'r cynnig. Rydym yn ymwybodol o'r materion posibl a allai godi o ran tegwch a chapasiti o fewn y sector. Felly, rydym wrthi'n adoygu ein polisi ynglŷn â gofalwyr plant cofrestredig yn darparu'r cynnig ar gyfer eu perthnasau.


Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn rhaglen £13.5m sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae PaCE yn targedu rhieni 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar, ynghyd â rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. I bob rhiant sy'n cofrestru â PaCE, gofal plant fydd y prif rwystr sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae PaCE yn adeiladu ar y gwasanaethau a gynigir drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn gyntaf ac mae'n gweithredu y tu allan i ardaloedd presennol Cymunedau yn Gyntaf, i ategu prosiectau eraill fel Cymunedau am Waith

Mae Cynghorwyr PaCE yn helpu rhieni i oresgyn rhwystrau i ofal plant mewn ffyrdd heblaw rhai ariannol. Er enghraifft, byddant yn cysylltu â chyflogwyr ac yn gofyn am hyblygrwydd o ran oriau gwaith rhieni, neu'n trefnu hyfforddiant ar yr adegau gorau i'r rhiant allu cynnal cydbwysedd rhwng yr oriau hynny a'u hanghenion gofal plant. Hyd at ddiwedd Ebrill 2018, roedd PaCE wedi ymgysylltu â bron i 3000 o gyfranogwyr, ac roedd 958 o'r rheini wedi mynd i fyd gwaith. Menywod yw o leiaf 95% o'r rhai sy'n cymryd rhan yn PaCE.

Noder bod PaCE yn perthyn i faes cyfrifoldeb y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg. Mae'r mater o ymestyn rhaglenni sy'n derbyn nawdd Ewropeidd, megis PaCE, y tu hwnt i'w dyddiadau terfyn presennol yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Yn gywir



Julie James AC/AM

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Huw Irranca-Davies AC/AM

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal
Cymdeithasol
Minister for Children, Older People &
Social Care